

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 13 Ionawr 2021

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 19 IONAWR 2021 am 10.00 am TRWY CYFRWNG FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020 (copi'n amgaeedig).

5 CYNLLUN BRYN AR GYFER BYSIAU (Tudalennau 15 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd (copi yn amgaaedig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymuno â Chynllun Bryn ar gyfer Bysiau 2 i sicrhau cefnogaeth ariannol ar gyfer y sector bysiau a sefydlu perthynas gyda Chyngor Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol rhanbarthol.

6 SEFYDLU PARTNERIAETH CHWARAEON GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 93 - 124)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi yn amgaaedig) yn ceisio cefnogaeth y Cabinet mewn egwyddor i sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru.

7 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2021/22 (Tudalennau 125 - 150)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaaedig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i godi rhent blynyddol tai cyngor Sir Ddinbych ac i gymeradwyo'r Cyfrif Refeniw Tai a Chyllidebau Cyfalaf ar gyfer 2021/22 a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.

8 CYLLIDEB 2021/22 – CYNIGION TERFYNOL (Tudalennau 151 - 170)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaaedig) sy'n nodi goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol 2021/22 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2021/22.

9 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 171 - 188)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn glŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET (Tudalennau 189 - 192)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaaedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

Dim eitemau.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

**Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon**

**Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young**

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda, ddydd Mawrth 15 Rhagfyr 2020 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Meirick Davies, Hugh Irving, Alan James, Arwel Roberts, Rhys Thomas, Graham Timms, ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS) ac Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW) a Chyllid ac Eiddo (SG); Rheolwr Fframwaith (TS); Rheolwr Buddion Cymunedol (KB); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP); Cydlynnydd Craffu (RE), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a SLW)

Roedd y Gohebydd Democratiaeth Leol hefyd yn bresennol o bell er mwyn arsylwi'r cyfarfod.

PWYNT SYLW

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Cafodd pob aelod gyfle i fynychu fel arsylwyr a chafodd y Gohebydd Democratiaeth Leol wahoddiad i arsylwi hefyd.

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen – Adroddiad Cyllid -

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Cefn Meiriadog

Y Cynghorydd Arwel Roberts – Ymddiriedolwr yng Nghylch Meithrin Ysgol Dewi Sant

3 MATERION BRYS

Gwnaed datganiadau am y canlynol -

- (i) Fe soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau am y penderfyniad anodd i gau ysgolion ar gyfer dysgu wyneb i wyneb yn gynnar o 16 Rhagfyr ymlaen, gyda dysgu o bell i ddisgyblion ar 17 a 18 Rhagfyr. Gwnaed y penderfyniad ar ôl trafodaethau gydag Aelod Arweiniol Addysg, Pennaeth Addysg ac mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd y sir. Teimlwyd bod gadael ysgolion ar agor am wythnos lawn yn anghynladwy o ystyried y sefyllfa yng Nghymru a gan bod ysgolion cynradd eraill yn cau ar draws Gogledd Cymru. Mynegodd Aelod Arweiniol Addysg ei siom bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cau ysgolion uwchradd o blaid dysgu o bell o 14 Rhagfyr. Ar y pryd, dim ond 5 achos o Covid-19 oedd wedi'u cofnodi yn ysgolion Sir Ddinbych, ac roedd 98% o ddisgyblion yn yr ysgol ar 14 Rhagfyr sy'n brawf o'r mesurau rheoli effeithiol yn yr ysgolion, gan arwain at lai o reolaeth ar ôl i'r ysgolion cau ac effaith posibl ar y gymuned.
- (ii) Cyfeiriodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill at nodyn briffio a e-bostiwyd i aelodau gyda diweddariad am y gyfran ddiweddaraf o gyllid grant Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau lleol oedd wedi'u heffeithio gan Covid-19 oedd yn cael ei weinyddu gan y Cyngor. Roedd y grantiau ychwanegol ar gael yn sgil cyfyngiadau pellach o fewn y sectorau lletygarwch, twristiaeth, hamdden, manwerthu a'r gadwyn gyflenwi o 4 Rhagfyr 2020. Mae trosolwg o'r ddau gynllun wedi cael ei ddarparu a chyhoeddwyd canllaw terfynol ddiwedd yr wythnos flaenorol. Mae staff wedi bod yn gweithio'n ddiflino i roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith er mwyn gweinyddu'r cynlluniau, a rhoddwyd teyrnged i'w gwaith caled. Byddai'r grantiau cyfnod atal byr i'r busnesau hynny yn y sector lletygarwch yn cael ei brosesu'r wythnos honno a byddai dros 400 o fusnesau yn derbyn taliadau gwerth £1.4m.
- (iii) Roedd yr Arweinydd yn teimlo bod diwedd 2020 yn amser i edrych yn ôl ar yr heriau a wynebodd yr awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y prif feddyliau gyda phreswylwyr a'u teuluoedd oedd wedi dioddef yn sgil Covid-19 ar draws Sir Ddinbych a'r rhanbarth yn ehangach. Diolchodd i'r holl staff am eu gwaith a'u hymroddiad, roedd llawer ohonynt wedi mynd yr ail filltir, gan sicrhau bod gwasanaethau o ddydd i ddydd yn parhau i redeg gan amddiffyn pobl ddiamddiffyn a chefnogi busnesau lleol. Diolchwyd hefyd i bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus am eu cefnogaeth ac i aelodau, a rhoddwyd cydnabyddiaeth arbennig i waith Arweinwyr Grŵp am weithredu prosesau democrataidd. Roedd hi'n rhyddhad gallu nodi bod brechlynnau ar gael a byddai'r awdurdod yn chwarae ei ran yn cyflwyno'r rhaglen frechu. Yn y cyfamser, rydym yn wynebu gaeaf llwm gyda'r cyfartaledd treigl o bobl sy'n cael prawf positif am y feirws ar draws Cymru yn codi, ac rydym yn edrych ar realiti o gyfnod clo hir ar ôl y Nadolig. I gloi, dymunodd yr Arweinydd Nadolig diogel ac iach, heddychlon ac ymlaciol i bawb.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2020.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2020 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

5 POLISI BUDDION CYMUNEDOL CSDD

Cyflwynodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yr adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar Bolisi Buddion Cymunedau arfaethedig.

Ym mis Mehefin 2019, cymeradwyodd Bwrdd Rhaglen Pobl Ifanc a Thai sefydlu Canolfan Buddion Cymunedol (Canolfan BC) i gefnogi a galluogi gwasanaethau i gynnwys buddion cymunedol mewn contractau mor gynnar â phosibl er mwyn cynyddu gwerth ar gyfer gwariant y cyngor. Penodwyd Rheolwr a Swyddog Canolfan BC yn gynharach yn y flwyddyn ac fe luniwyd y polisi a gyflwynwyd i bob Grŵp Ardal yr Aelodau a chafodd ei adolygu gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a argymhellodd bod y polisi'n cael ei gymeradwyo. Byddai'r polisi'n darparu fframwaith ar gyfer budd-ddeiliaid mewnol ac allanol, ac yn gweithio i gefnogi'r Ganolfan Buddion Cymunedol i fonitro'r canlyniadau oedd yn cael eu cyflwyno yn sgil manteision cymunedol. Gwariodd y Cyngor oddeutu £116m yn flynyddol, felly roedd sgôp i wneud buddion sylweddol o ganlyniad. Nid buddion ariannol oedd y buddion cymunedol y cyfeiriwyd atynt yn yr achos hwn, ond buddion mewn nwyddau megis hyfforddiant a phrentisiaethau ac ati. Er bod cytundebau A.106 y tu allan i gylch gwaith y polisi, roedd y Ganolfan Buddion Cymunedol wedi ymgymryd â rôl 'system glirio' er mwyn sicrhau bod y budd cymunedol gorau posib yn dod ohono.

Rhoddodd y Rheolwr Canolfan Buddion Cymunedol rywfaint o gefndir gan ailadrodd gwariant sylweddol y Cyngor ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau trydydd parti a'r potensial i gael buddion ychwanegol mewn nwyddau o'r gwariant hwnnw. Roedd y polisi presennol yn amodi y dylai gwariant contract oedd yn fwy na £1m ystyried buddion cymunedol. Roedd y polisi arfaethedig yn gostwng y throthwy hwnnw i gontractau gwaith o fwy na £100,000 a chontractau gwasanaethau nwyddau o fwy na £25,000 er mwyn agor cyfran helaeth o wariant y Cyngor i ddenu buddion cymunedol. Serch hynny, ni fyddai'r trothwyon hynny yn berthnasol yn awtomatig. Fe fyddai yna ymagwedd cais a chefnogaeth i fuddion cymunedol ac ymgysylltu â thimau caffael a thimau chomisiynu o ran hynny. Byddai mabwysiadu'r polisi yn dangos ymrwymiad y Cyngor i fuddion cymunedol, yn dilysu ymagwedd y Cyngor i alluogi cyfleoedd i sicrhau buddion sydd ar gael ac yn gwneud y mwyaf o werth gwario i breswylwyr ac yn sefydlu buddion cymunedol mewn prosesau caffael. Byddai'r polisi hefyd yn cyd-fynd ag uchelgais di-garbon y Cyngor gyda photensial ar gyfer buddion cymunedol i gyfrannu at fesurau lliniaru a lleihau carbon.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd i gwestiynau'r aelodau fel a ganlyn -

- o ran prentisiaethau roedd yna nifer o gyfleoedd roedd y Cyngor yn eu dilyn trwy Sir Ddinbych yn Gweithio, ond pwrpas y polisi Buddion Cymunedol oedd ystyried y manteision y gellir eu sicrhau trwy wariant caffael.
Serch hynny, roedd nifer o leoliadau wedi cael eu sicrhau trwy ymagwedd buddion cymunedol ac roedd y Ganolfan Buddion Cymunedol yn gweithio'n agos â Sir Ddinbych yn Gweithio er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd posibl o ran hynny.
- rhoddodd eglurhad o rôl adrannau'r gyfraith a chynllunio o ran trefniadau A.106, ac eglurodd bod y Ganolfan Buddion Cymunedol wedi ymgymryd â rôl monitro a thracio trefniadau A.106 er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n iawn. Cadarnhawyd y gallai manylion y gwaith hwnnw gael ei rannu ag aelodau.
- roedd yn cydnabod y potensial i ymestyn cylch gwaith Canolfan Buddion Cymunedol, ond cadarnhaodd bod y flaenoriaeth bresennol i sicrhau buddion cymunedol yn cael eu sefydlu o fewn y broses gaffael ac yn cael eu hystyried yn gynnar yn y broses ynghyd â monitro'r buddion cymunedol hynny'n effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno.
- rhoddwyd sicrwydd bod y Ganolfan Buddion Cymunedol yn cydweithio â Thimau Cefnogaeth Gymunedol o ran cyllid fferm wynt a chyllid cymunedol eraill er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau nad oeddynt yn gweithio ar ddau beth gwahanol
- rhoddodd enghraifft o fuddion cymunedol ar waith oedd yn cynnwys contractau bach ar gyfer gwasanaethau ymgynghoriaeth, yn benodol darparu gofal cymdeithasol, a gofynnwyd i ymgynghorwyr ymrwymo i nifer o oriau i ofal o bell i'w gynnig i rywfaint o'r grwpiau cymunedol sy'n ffurfio mynediad i gyllid fferm wynt
- fe eglurodd bod y Ganolfan Buddion Cymunedol yn gweithio gydag adrannau gwahanol i ganfod y buddion cymunedol mwyaf priodol o fewn cymunedau gwahanol sydd angen bod yn berthnasol ac wedi'i alinio â rhan sylweddol y contract ac o fewn disgwyliaid rhesymol o beth fyddai contract yn gallu ei ddarparu ac yn gymesur i faint y contract.

Roedd y Cabinet yn cydnabod gwerth y polisi a dywedodd y Prif Weithredwr ei bod hi'n cefnogi'r gwaith oedd yn alinio â nod y Cyngor o roi cymunedau yn ganolbwynt i'w waith. Fe gadarnhaodd hefyd bod yr Uwch Dîm Reoli wedi cymeradwyo'r polisi'n llawn a diolchodd i'r Ganolfan Buddion Cymunedol am eu gwaith caled.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- cymeradwyo dogfen Polisi Buddion Cymunedol, a*
- chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

6 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb fel yr amlinellir isod -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21 oedd £208.302 miliwn (£198.538 miliwn yn 2019/20).

- rhagwelwyd gorwariant o £2.476miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol (roedd y gorwariant yn cynnwys £2.7miliwn a dalwyd ar gyfer grant 'colli incwm' ar gyfer Chwarter 2)
- tynnwyd sylw at y risgiau a thybjaethau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol ynghyd ag effaith ariannol Coronafeirws a chyllidebau Model darparu Amgen Hamdden
- manylion o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol o £4.448 miliwn y cytunwyd arno, gan gynnwys cynnwys arbedion corfforaethol sy'n ymwneud ag adolygiad actiwaraid teirblwydd o Gronfa Bensiynau Clwyd (£2 miliwn); 1% arbedion ysgolion (£0.692 miliwn); arbedion gwasanaeth (£1.756 miliwn).
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gymeradwyo defnyddio dyraniadau grant fel yr awgrymodd y Grŵp Buddsoddi Strategol yn ymwneud ag (1) Grant Cynnal a Chadw Ysgolion, (2) Adfer ar ôl Llifogydd mis Chwefror (Asedau Priffordd), a (3) Grant Cyfalaf Gofal Plant, ac fe soniwyd mwy am yr elfennau hynny yn y cyfarfod.

Ymhelaethodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf yn fanwl, yn enwedig o ran effaith ariannol Covid-19, gan gynnwys y cyllid grant a gafwyd hyd yma a'r safle ar hawliau i'r cyngor. Roedd y gorwariant o £2.475miliwn a ragwelwyd (£5.492miliwn fis diwethaf) yn cynnwys £2.7miliwn a dalwyd mewn cysylltiad â grant 'colli incwm' ar gyfer Chwarter 2 (roedd yr hawliad llawn yn £3.233miliwn). Darparwyd naratif hefyd ynglŷn ag amrywiadau gwasanaeth a thynnwyd sylw at symudiadau o'r mis blaenorol. Er nad oedd cyllidebau corfforaethol yn dangos amrywiant, roedd hi'n debygol y byddai holl wariant yn ôl disgrisiwn a chyllidebau wrth gefn yn cael eu rhyddhau er mwyn helpu i ariannu'r sefyllfa gyda risgiau yn parhau o ran Incwm o'r Dreth Gyngor a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu Balansau Cyffredinol heb eu clustnodi wrth i ni barhau i deimlo effaith y pandemig.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Cyllid i gwestiynau fel a ganlyn –

- roedd y golofn 'disallowed' o ran hawliadau a gyflwynwyd yn ymwneud ag elfennau o'r hawl roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu nad oedd yn gymwys ac felly ni fyddai'n cael ei dalu.
Ar yr ochr gwariant, roedd hawliadau o £119,649 wedi cael eu gwrthod oedd yn ymwneud ag elfennau nad oedd LIC yn ystyried oedd yn wariant ychwanegol, ac mewn rhai achosion roedd hi'n anodd i wasanaethau benderfynu ar gymhwysedd, ond daeth y canllaw a ddarparwyd gan LIC yn fwy clir dros amser ac mae'r Cyngor wedi dod yn fwy medrus gyda'r broses hawlio gan ymarfer cyfrifyddu llyfr agored. Cafodd hawliadau colli incwm a wrthodwyd gwerth £642,922 yn bennaf eu priodoli i hawliadau cychwynnol ar gyfer colledion y cyfrif refeniw tai a ffioedd ar draws awdurdod. Cafodd colledion y cyfrif refeniw tai eu gwrthod am resymau rheoleiddio gan fod rhaid eu trin yr un fath â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac nid oedd hawliadau ar gyfer incwm gan awdurdodau lleol eraill bellach yn gymwys yn dilyn cytundeb rhanbarthol y gallai'r taliadau contract yma rhwng yr awdurdodau gael eu bodloni. O ganlyniad, nid oedd cyfanswm y swm a wrthodwyd yn cynrychioli'r incwm a

gollwyd na fyddai'n cael ei ad-ennill, ond roedd yn adlewyrchu mireinio'r broses ar gyfer gwasanaethau penodol.

- roedd y golofn ' Holding' yn ymwneud â hawliadau a gyflwynwyd y mae LIC wedi gofyn am ragor o wybodaeth a thystiolaeth cyn penderfynu i dalu'r hawliad neu beidio, a defnyddiwyd rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo colli incwm ar gyfer meysydd parcio fel enghraifft dangosol.
Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda LIC ynglŷn â hynny ac roedd yna hyder y byddai mwyafrif y ffigur 'holding' ar gyfer Chwarter 2 yn cael ei dalu erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd yna rywfaint o bryder ynglŷn â'r hawliadau a gyflwynwyd mewn cysylltiad ag elfennau megis ffioedd cynllunio pan oedd LIC yn credu bod oedi wedi bod mewn cyllid a chymerwyd yr un agwedd gyda incwm o'r dreth gyngor pan roedd arian dal i fod yn ddyledus – ni fyddai'r golled yn amlwg tan ddiwedd y flwyddyn a darpariaeth dyled ddrwg. Serch hynny, roedd LIC wedi cytuno i adolygu'r sefyllfa ar Dreth y Cyngor ym mis Ionawr, a gobeithio erbyn hynny y bydd rhagor o eglurder am rai o'r elfennau 'holding' eraill i adrodd yn ôl i'r Cabinet. O ystyried graddfa'r hawliadau ar yr ochr incwm, ni dybiwyd unrhyw incwm yn yr adroddiad monitro oedd yn cynrychioli'r senario gwaethaf posibl ac roedd gostyngiad yn y gorwariant i'w ddisgwyl ar dalu hawliadau yn Chwarteri 3 a 4. Gan fod y mwyafrif o incwm yn ddibynnol ar yr elfen dwristiaeth, bu gostyngiad yng ngholli incwm a risg cysylltiedig dros fisoedd y gaeaf.
- o ran cyfeiriadau blaenorol ym mhrosiect Ailddatblygu Marchnad y Frenhines yn y Rhyl sydd wedi'u manylu yn yr adroddiad, cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'r geiriad yn cael ei ailystyried ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu ar y cynnydd a'r sefyllfa ddiweddaraf
- roedd y rhestr o waith cynnal a chadw adeiladau ysgol yn yr adroddiad yn cynnwys pob eitem a gyflwynwyd ar gyfer cyllid grant. O ystyried y swm bychan o gyllid oedd ar gael, roedd swyddogion wedi cynnal ymarfer blaenoriaethu o'r gwaith oedd ei angen fel sail i ddyrannu'r cyllid hwnnw, ac roedd yr eitemau gyda ffigurau yn y golofn amcangyfrif o'r gost yn waith blaenoriaeth a fyddai'n cael ei wneud. Byddai'r gwaith na chafodd eu dewis yn cael eu cario ymlaen i'w ystyried fel rhan o ddyrannu'r cyllid yn y dyfodol.
- adfer ar ôl lifogydd mis Chwefror - o ran yr elfen refeniw, nid oedd y Cyngor yn gymwys ar gyfer cyllid ymateb i argyfwng gan nad oedd yn bodloni'r trothwy gwariant £250,000 gydag oddeutu £115,000 o gostau fel ymateb uniongyrchol. Serch hynny, cadarnhaodd LIC y byddai cyllid cyfalaf ar gael i gael ei wario yn y flwyddyn ariannol bresennol ar gyfer difrod a achoswyd, ac roedd y Cyngor wedi cyflwyno rhestr o gynlluniau gydag amcangyfrifon werth tua £1.3miliwn, a'r arwyddion oedd y byddai dyfarniad grant ar gyfer y swm llawn yn dod.
- gan ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Arwel Roberts ynglŷn â'r Cylch Meithrin yn Ysgol Dewi Sant, rhoddodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts sicrwydd ynglŷn â'r ymrwymiad i gefnogi'r sefyllfa yn Ysgol Dewi Sant a darpariaeth iaith Gymraeg, a chadarnhaodd y buddsoddiad oedd wedi'i drefnu ar y safle – o ystyried y math o waith oedd ei angen roedd yna amserlen hirach, ond roedd cefnogi'r Gymraeg yn parhau yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- (a) *nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*

- (b) cymeradwyo defnyddio'r Grant Cynnal a Chadw Ysgolion sydd wedi'i ddyfarnu i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru, fel yr argymhellir gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac a fanylir arno yn yr adroddiad hwn ac atodiadau 5, 6 a 7;
- (c) cymeradwyo defnyddio'r grant dangosol sydd wedi'i ddyfarnu i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru ar gyfer difrod i asedau priffyrdd fel yr argymhellir gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac a fanylir arno yn yr adroddiad hwn ac atodiadau 8, 9 a 10, a
- (d) cymeradwyo defnyddio'r Grant Cyfalaf Gofal Plant sydd wedi'i ddyfarnu i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru, fel yr argymhellir gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac a fanylir arno yn yr adroddiad hwn ac atodiadau 11 ac 12.

7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w ystyried, a dywedodd aelodau bod Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol CSDd (2021/22 – 2029/30) wedi cael ei aildrefnu o fis Ionawr i fis Chwefror.

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

GWAHARDD Y WASG

PENDERFYNWYD y byddai aelodau'r Wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail fod yr eitem yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 16 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

8 DYFARNU CONTRACT CAEL GWARED AR ASBESTOS

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract gwaith i Gontractwr Gwaredu Asbestos trwyddedig yn syth.

Roedd y trefniadau presennol i gael gwared ar asbestos o eiddo'r cyngor trwy fframwaith cydweithredol fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020, ac roedd y Cabinet wedi cytuno ar fanylion a chychwyn y broses gaffael ar gyfer contract gwaith ym mis Hydref 2020. Roedd manylion y broses werthuso tendrau a gyflwynwyd ynghyd â'r system sgorio wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad, ynghyd â'r dyfarniad contract a argymhellir. Fe awgrymwyd hefyd bod y penderfyniad i ddyfarnu'r contract yn cael ei weithredu yn syth er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw fwch mewn yswiriant o ystyried bod y fframwaith presennol wedi dod i ben ar 20 Rhagfyr 2020.

Ystyriodd y Cabinet ganlyniad y broses gaffael ynghyd ag argymhellion yr adroddiad ac o ganlyniad –

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- (a) *cytuno i ddyfarnu'r contract gwaith i'r contractwr a enwyd ac a awgrymwyd yn yr arddodiad oedd yn Contractwr Gwaredu Asbestos trwyddedig, ac a dderbyniodd y sgôr uchaf fel y dangosir yn Atodiad 1 yr adroddiad, a*
- (b) *chadarnhau bod y penderfyniad yn cael ei weithredu ar unwaith er mwyn atal unrhyw oedi wrth ddyfarnu'r contract er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw fwlch mewn yswiriant pan fyddai'r fframwaith presennol yn dod i ben ar 20 Rhagfyr 2020.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25am.

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 19 Ionawr 2020

Aelod Arweiniol / Swyddog Y Cyngorydd Brian Jones:

Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd

Emlyn Jones

Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau

Cefn Gwlad

Awdur yr Adroddiad Peter Daniels, Rheolwr Cludiant Teithwyr

Teitl Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cyflwyno cam nesaf y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r cyd-destun ehangach, y cefndir a'r rhesymau dros BES ac yn ceisio cytundeb i ymuno â chynllun BES 2.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cytuno ag egwyddorion cytundeb BES 2 (Atodiad 2) i sicrhau cymorth ariannol (amodol) i'r sector bysiau ac i sefydlu perthynas â Chyngor Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol rhanbarthol a'r llofnodwr, sy'n sicrhau bod yr arian brys parhaus yn bodloni blaenoriaethau'r awdurdod ac yn cael ei ddarparu ar ei ran.

3.2. Maes o law, i alw am adroddiad pellach ar gynigion i ddiwygio bysiau mewn perthynas â rheoli gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn y dyfodol.

4. Manylion yr Adroddiad

Cefndir

- 4.1. Mae'r argyfwng iechyd presennol wedi effeithio'n ddifrifol ar deithio ar fysiau. Mae nifer y teithwyr wedi gostwng yn sylweddol, tra bod gofynion cadw pellter cymdeithasol a glanhau ychwanegol wedi rhoi beichiau a chostau ychwanegol ar ysgwyddau gweithredwyr.
- 4.2. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) ac awdurdodau lleol (ALI) wedi camu i mewn i gefnogi'r sector gyda chymorth ariannol sylweddol. Mae pob parti wedi cymryd rhan mewn deialog gynhyrchiol i drafod a chytuno ar drefniadau cefnogi.
- 4.3. Cyn y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar amrywiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ffordd y caiff gwasanaethau bysiau eu darparu yng Nghymru. Roedd pwysau nid yn unig yn gysylltiedig â'r feirws ond hefyd y nifer fawr o waith cyfreithiol a gynhyrchwyd gan Brexit a'r cyfnod pontio wedi gorfodi Llywodraeth Cymru i ohirio'r Bil Bysiau arfaethedig a fyddai fel arall yn dod allan yn nhymor presennol y Senedd.
- 4.4. Oherwydd y swm sylweddol o arian cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau bysiau gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ffafriaeth Llywodraeth Cymru yw gweld y sector cyhoeddus yn cael mwy o ddylanwad dros feysydd fel y rhwydweithiau o wasanaethau a ddarperir, tocynnau ac integreiddio â gwasanaethau rheilffyrdd. Mae hefyd yn rhagweld mwy o rôl i Drafnidiaeth Cymru, sydd bellach yn gyfrifol am wasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru.
- 4.5. Mae hyn yn codi dau fater: (i) goroesiad tymor byr gweithredwyr a (ii) diwygio'r sector yn y tymor hwy. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y gellir cysylltu'r ddau yma. Mae cyllid argyfwng tymor byr yn lliniaru effeithiau ar gyfer gweithredwyr, gyda nifer o amodau ynghlwm. Mae'r rhain i gymell gweithredwyr i gymryd rhan mewn newidiadau arfaethedig sy'n cyd-fynd â'r uchelgeisiau tymor hwy ar gyfer diwygio.
- 4.6. Mae Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates Aelod o'r Senedd, wedi cyfarfod ag arweinwyr pob un o'r 22 ALI, ynghyd â'i swyddogion, i nodi cyfeiriad Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) sy'n destun ymgynghoriad.

Yn fwy diweddar, cyfarfu'r Dirprwy Weinidog, Lee Waters Aelod o'r Senedd, â'r holl arweinwyr i drafod y WTS ond hefyd i annog Awdurdodau Lleol i gofrestru ar gyfer BES 2.

4.7. Mae arweinwyr wedi cytuno i sefydlu Grŵp Aelodau Bysiau CLILC, gan ganolbwyntio ar y cynigion tymor hwy i ddiwygio gweithrediadau'r sector. Mae'r grŵp hwnnw'n cynnwys Arweinydd CLILC (sydd hefyd yn Llefarydd Trafnidiaeth CLILC), y Dirprwy Llefarydd Trafnidiaeth, cadeiryddion y pedwar corff trafndiaeth rhanbarthol a chyd-gadeiryddion Fforwm Gwledig CLILC. Cyfarfu'r Grŵp Aelodau hwnnw â Lee Waters ar 18 Ionawr 2021.

BES

4.8. Cydnabuwyd y problemau sy'n wynebu gweithredwyr yn gynnar yn y pandemig. Wrth edrych i'r dyfodol, er mwyn sicrhau eu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, cytunodd awdurdodau lleol i barhau i wneud taliadau am wasanaethau dan gontract er bod llawer o wasanaethau wedi'u hatal i ddechrau.

4.9. Ochr yn ochr â hyn, camodd Llywodraeth Cymru i mewn i helpu gweithredwyr i ddelio â llai o incwm ar lwybrau a weithredir yn fasnachol a'r costau ychwanegol sy'n cael eu hysgwyddo. I ddechrau, gwnaeth rhyddhaodd Llywodraeth Cymru £29m o'r Gronfa Caledi, a oedd yn gweithredu o fis Ebrill 2020 am dri mis. Cafodd y Gronfa hon ei chronni o arian a fyddai fel arall wedi'i dalu drwy'r Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau, y Cynllun Teithio Consesiynol a'r cynllun Fy Ngherdyn Teithio i bobl ifanc.

4.10. Yna cyflwynwyd BES 1 ym mis Gorffennaf i ddarparu cymorth parhaus. Parhaodd i gynnal incwm gweithredwyr ar lefelau hanesyddol, yn seiliedig ar daliadau o dan gynlluniau grant 2019. Yn gyfnewid am hyn, nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn disgwyl i weithredwyr gyfrannu at ail-lunio gwasanaethau bysiau yng Nghymru, gan gynnwys gwell rhwydweithiau rhanbarthol gyda mwy o integreiddio â gwasanaethau rheilffyrdd, tocynnau clyfar ac amserlennu.

4.11. Cyflwynwyd BES 1.5 ym mis Awst, a weinyddwyd gan Sir y Fflint fel awdurdod arweiniol ar gyfer y Gogledd ond a ddisbarthwyd ar ôl cytundeb rhanbarthol. Mae Sir y Fflint wedi dosbarthu'r BSSG presennol ers 2013. Darparodd BES 1.5 £10m o 'gyllid cynyddol' cychwynol ar gyfer y diwydiant bysiau i gefnogi

ailagor ysgolion a gweithgarwch economaidd cyffredinol. Dilynodd £35m ychwanegol o fis Medi ymlaen. Helpodd yr arian hwn i dalu am y gost o adfer gwasanaethau a ataliwyd gyda chyfyngiadau teithio ac roedd eu hangen i ateb y galw cynyddol, o ystyried cyfyngiadau capasiti o ran cadw pellter cymdeithasol. Yna cafodd BES 1.5 ei ymestyn i ddiwedd mis Mawrth 2021. Unwaith eto, gofynnwyd i weithredwyr ymrwymo i ystod o delerau ac amodau i gael gafael ar gyllid BES.

4.12. Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, bellach yn cynnig ymrwymo i gytundeb BES 2 tymor hwy gyda gweithredwyr ac awdurdodau lleol i ddiogelu gwasanaethau bysiau. Bydd yn gweithredu am gyfnod cychwynnol o hyd at ddwy flynedd o'r dyddiad y dechreuodd BES 1.5 (h.y. hyd at 31 Gorffennaf 2022), oni bai bod amodau'r farchnad yn gwella'n ddigonol i weithredwr beidio bod angen cymorth BES mwyach ar gyfer unrhyw un o'i wasanaethau p'un a ydynt yn cael eu contractio neu'n fasnachol.

4.13. Ceir nodweddion allweddol BES 2 yn Atodiad 1. Mae nodyn briffio a baratowyd gan Drafnidiaeth Cymru ar gael fel Atodiad 2 a'r Cytundeb arfaethedig llawn fel Atodiad 3).

Y tu hwnt i BES 2

4.14. Mae trafodaethau'n dechrau cael eu cynnal mewn perthynas â chynllunio rhwydweithiau yn y dyfodol a phriod rolau Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Awdurdodau Lleol a gweithredwyr. Mae'n bwysig nodi nad dyma brif ffocws cytundeb BES 2. Bydd yn bwysig cynnal trafodaethau manwl pellach gyda'r Aelodau ar y materion hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rheswm dros ohirio llofnodi cytundeb BES 2. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd BES 2 yn helpu i gynnwys gweithredwyr yn y trafodaethau am y dyfodol, ar adeg pan fo'u hincwm yn fwy dibynnol fyth ar gymorth gan y sector cyhoeddus. Wrth gofrestru ar gyfer BES 2, fodd bynnag, mae Awdurdodau Lleol yn cytuno i ddarparu cymorth ariannol i'r sector. Nid ydynt yn ymrwymo i unrhyw fodel penodol o reoli gwasanaethau bysiau yn y dyfodol, gan y bydd hynny'n destun trafodaeth bellach.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae gwasanaethau bysiau yn rhan bwysig o'r flaenoriaeth 'cymunedau cysylltiedig'.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid yw'r costau ar gael ar hyn o bryd ond fe'u bodlonir o ffynonellau ariannu allanol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am Asesiad o Effaith ar Les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni ymgynghorwyd â neb heblaw am drwy Lywodraeth Cymru a CLILC gydag arweinwyr ledled Cymru.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Cefnogir y cytundeb arfaethedig gan ei fod yn helpu i ddarparu ymateb rhanbarthol i geisio sicrhau y gall y sector a gwasanaethau bysiau ddod yn gynaliadwy eto. Cyn belled â bod y Cyngor yn cytuno i gytundeb BES 2, nid yw'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar gyllidebau lleol ar unwaith. Mae Adran 10.1 yn nodi'r risgiau i'r maes gwasanaeth os nad ydym yn cymryd rhan.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae methu â chytuno i gynllun BES 2 yn arwain at ddwy risg. Y cyntaf yw na fydd gwasanaethau bysiau lleol yn parhau i gael eu hariannu ar eu lefel bresennol a bydd hyn yn arwain at doriadau mewn gwasanaethau. Yn ail, bydd yn golygu bod sir Ddinbych allan o'r cnewyllyn yn rhanbarthol, a allai fod â goblygiadau pellach i wasanaethau bysiau groesi ffiniau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. A.9 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 ac Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Key Features of BES 2

- 1.1. BES 2 will continue to address the loss of farebox revenue and the additional costs associated with responding to the pandemic. Under BES 2, WG funding will sit alongside our own local funding provided through the Concessionary Travel Scheme, via the Revenue Support Grant, and regionally through the Bus Services Support Grant to make up the shortfall.
- 1.2. WG will be a co-signatory to the BES 2 agreement with bus operators, alongside TfW. Local authorities retain legal responsibilities for bus services and therefore remain central to determining which local services receive this support. They need to agree to the principle of the agreement and the relationship with their Lead Authority, in ensuring that the ongoing emergency funding meets their priorities and is delivered on their behalf. This will provide the legal basis for WG to make payments to the operators. In this way, WG can use its powers to support operators, whereas the additional funding would breach local authorities' de minimis limits for direct award contracts (further details in the briefing note in Appendix 2 and the full proposed Agreement is in Appendix 3). LAs will remain responsible for those services which they currently contract directly with bus operators. LAs will need to consider planning for contingencies, such as if the BES 2 agreement is not signed or the level of funding for BES 2 is reduced during the period of the agreement.
- 1.3. Key features of BES 2 will be as follows:
 - Maximum term until 31st July 2022 or until operators enter into an embedded partnership agreement;
 - Development and delivery of a Reference Network, intended to provide a range of benefits to communities; multi-operator ticketing; and operator sign-up to an Economic Contract at the heart of WG's Economic Action Plan (and its principles of fair work, health, decarbonisation, skills and learning etc);
 - Long term co-operation and co-ordination across TfW, LAs and operators by entering into partnerships with a clear set of obligations and shared standards;

- One agreement per operator in each of the regions that they work in, signed by Welsh Government, TfW, a lead authority and the operator;
- Operators will be allowed to make a (capped) profit on services that has not been possible under emergency funding to date.

BUS EMERGENCY SCHEME PHASE 2 (BES 2) - BRIEFING NOTE FOR LOCAL AUTHORITIES

This summary sets out details of the proposed BES 2 arrangements. The proposals, described under the following headings, are subject to ongoing discussions between local authorities, operators, Transport for Wales and Welsh Government:

Journey to Date and Plans for BES 2.....	1
What does BES 2 Mean for Local Authorities?	1
Why move to BES 2?	3
What results are we trying to achieve with BES 2?	4
What does BES 2 mean for operators?	5
What risks exist with the proposed approach?	5
What changes from BES 1.5 to BES 2 and Beyond?	6

Journey to Date and Plans for BES 2

Since the start of the COVID 19 pandemic Welsh Government, Local Authorities, TfW and operators have worked together to make bus services available to Welsh citizens in spite of the significant reduction in passenger numbers and associated fare income. Money is still being provided to operators on an emergency basis under the terms and conditions in the BES 1.5 agreement which expires at the end of March 2021.

With the BES 2 agreement the public sector is planning to enter into longer term arrangements with operators, ideally by the end of January 2021, which will replace BES 1.5 from the point of signature.

What does BES 2 Mean for Local Authorities?

Actively managing recovery from the impact of COVID-19 on local bus services

The BES 2 agreement formalises Welsh Government's commitment to supporting recovery of bus services following the impact of COVID-19. BES 2 funding will be used to address the loss of farebox revenue and the additional costs associated with responding to the COVID 19 pandemic. Welsh Government will be a co-signatory to the proposed BES2 agreement with bus operators

Under the terms of the BES2 agreement, operators will be required to provide bus services that meet local needs under the direction of the Lead Authority for each region, working with and on behalf of its constituent local authorities.

The end date for the BES2 contract is 31 July 2022. This should allow enough time for revenues to recover. The contract may be terminated earlier if market conditions mean that additional Government funding is no longer required to address the impact of COVID-19.

Funding responsibilities

The BES 2 agreement exists to provide a legal basis for funding the costs associated with the impact of COVID 19. These include the loss of farebox, duplication of buses to take account of social distancing or providing alternative services where operators give them up and the services are still needed. This applies to services that were commercial pre-COVID and to tendered services.

The BES2 agreement does not change local authorities' ability to determine where and how they spend the Revenue Services Grant (RSG). The RSG funding is not hypothecated and most local authorities spend an element of this grant on local bus service provision to fill gaps in the commercial network. BSSG (roughly £8m across Wales) is also used to secure the delivery of services to a specified standard.

The BES2 funding for COVID19 related costs sits alongside this local authority funding for local bus services and does not remove or amend local authority powers and responsibilities with regard to local bus services. The two funding streams serve different purposes. Local authorities will still need to prioritise and fund local bus services where they see fit.

Specifically:

- if a local authority chooses to cease to fund a supported contract, BES 2 funding cannot be applied to backfill that loss of funding
- local authorities remain responsible for their existing contracts and may need to vary these contracts to scale back services if BES 2 funding were to cease before fare box takings return to pre-COVID levels, unless additional sources of funding are available.

Directing the provision of services

Working with the Lead Authority in each region, local authorities will need to jointly prioritise the routes that BES 2 funding should be applied to, taking into account the work already undertaken under BES 1.5 and using these priorities for spend:

- supporting learners' journeys to school or college on registered local bus services;
- increasing frequencies where demand exceeds capacity;
- improving accessibility to jobs and services across our regions and communities;
- supporting economic recovery; and
- ensuring social inclusion,

Under the terms of the BES2 contract, subject to the Lead Authority acting reasonably within the bounds of available funding, the bus operators will be required to provide services that meet local priorities as directed by the Lead Authority.

The BES 2 arrangements include the collaborative development of regional Reference Networks by local authorities, operators, Welsh Government and TfW. The Reference Networks will reflect local, regional and national priorities and will help to guide investment in bus services for the future. BES2 ensures local authorities have an influence over the development of a coherent Reference Network which will ultimately be delivered by a mix of tendered and commercial services.

Implications for local bus contracts

The BES 2 agreements do not supersede the existing supported contracts (e.g. section 63 contracts) that are in place between each local authority and bus operators. The BES 2 agreements sit alongside existing contracts and provide a legal basis for the additional funding that operators are receiving in respect of their supported contracts to cover the loss of farebox and additional costs incurred, for example, with respect to complying with social distancing and cleaning requirements. The BES 2 agreements also set out the basis on which operators will exit the BES arrangements and return to the original terms of contract.

The additional funding that is being paid to operators to address the impact of the COVID 19 pandemic would breach local authorities' de minimis limits for direct award contracts. Welsh Government is a signatory to the existing BES 1.5 agreement and to the proposed BES 2 agreement in order to use its powers to support continued provision of the operators' services without breaching the de minimis cap. Welsh Government powers in this regard can be exercised for a two year term and date from the start of the BES 1.5 agreement on 1 August 2020 to 31 July 2022.

BES can impact on local contract procurement. Where a local authority wishes to tender for a new or time expired supported contract the risks associated with predicting farebox revenue, during and immediately after the pandemic, will affect tender prices. In these circumstances, bidders will be required to offer a price that they will charge while BES funding is in place and alternative prices for when BES funding is no longer available, with their tenders covering both before and after the farebox has returned to pre-COVID levels.

Regional Working

BES2 supports the move to improve regional co-ordination and oversight of delivery of local bus services. Under BES 1.5, the funding was distributed to the Lead Authority in each region. Each operator signed one agreement with the Lead Authority in each region where it operates, with Welsh Government and Transport for Wales as co-signatories. The Lead Authority is then responsible for distributing the BES funding to the operators in its region. It is proposed that this model is retained for the BES 2 agreement. The responsibilities of each party will be clearly set out in the grant letter to the Lead Authority and in the BES 2 agreement, and measures are being taken to minimise the risk to the Lead Authority relating to funding and termination of the BES2 agreement.

Why move to BES 2?

The benefit for operators is that they will be able to make a profit under the terms of BES 2. No profit has been allowed in the emergency arrangements up to now.

The benefit for the public sector is that we can jointly better manage the recovery of bus services. The alternative is that, as recovery begins, operators will shrink their networks to the routes and services that are commercially viable for them leaving government to support an even larger subsidised network. The BES 2 arrangements are seeking to ensure that operators are incentivised to support the recovery of the whole network and not just a limited number of commercial routes.

The public sector is taking farebox risk under BES 2 and, as farebox levels rise, this revenue will augment the funding available to work with operators to support the recovery of services. This will benefit us all in the long term by building passenger confidence in a reliable and comprehensive public transport network.

Although recovery from the impact of the COVID 19 on patronage is likely to be slow, we do not expect operators to stay within the BES 2 arrangements forever. **As passenger confidence returns and farebox recovers, we expect operators to exit the BES 2 arrangements and work with us under partnership agreements.** The partnership agreements will be based on agreed core set of principles and behaviours that will be developed with operators as part of the BES 2 arrangements.

What results are we trying to achieve with BES 2?

BES 2 provides a mechanism for managing the recovery and reshaping of bus services to respond to the impact of the COVID 19 pandemic. Specifically:

- Address areas of high demand where social distancing has reduced available capacity
- Ensure that communities are not cut off due to low fare box revenues.
- Offer new options for meeting demand such as demand responsive transport which may be more cost effective as patterns of travel change.
- Offer better value for money for passengers by working with operators to rationalise their fare structures and develop multi operator ticketing, to the extent permitted by competition law.
- Build a better working relationship with operators to develop a robust and viable network of services for the future.
- Gain a better understanding of the costs of delivering bus services in Wales to inform future policy and funding decisions
- Reduce pollution by introducing measures to attract people out of their cars and onto public transport and by working with the industry to upgrade their fleet.

What does BES 2 mean for operators?

Where an operator signs up to the BES arrangements (whether BES 1, 1.5 or BES 2), all the services that the operator runs – whether they are supported or formerly commercial – are included in the contract.

